

# Gwers 2 – Popeth yn mynd o'i le

## Nodiadau Cefndir i'r Athro

### Genesis 2:8 – 3:24

**C**oron creadigaeth Duw, ar y chweched dydd, oedd dyn, h.y. y ddynoliaeth, yn wryw ac yn fenyw. Ystyr yr enw Adda yw 'o'r pridd'; y cyntaf o'r rhywogaeth ddynol, neu y gwreiddiol. Y mae'r cyfeiriad at greu dyn yn nwy bennod gyntaf Genesis wedi esgor ar anghytuno ymysg ysgolheigion, oherwydd meddir, nid yw'r naill yn cytuno gyda'r llall. Y mae'r cofnod cyntaf yn rhan o adroddiad cyffredinol am y Creu, gyda'r awdur yn cyflwyno darlun cyflawn o waith Duw heb fynd i fanylion. Y mae'r ail gofnod yn llawnach, yn adrodd y modd y crëwyd Adda, ac yna, oherwydd bod angen 'ymgeledd cymwys' arno, creodd Duw Efa.

Roedd Adda'n wahanol i'r holl greaduriaid eraill, oherwydd, fe'i crëwyd ar 'ddelw' a 'llun' Duw. Fe'i crëwyd hefyd i '...lywodraethu ar bysgod y môr, ar adar yr awyr, ar yr anifeiliaid gwylltion, ar yr holl ddaear...'. I'r diben hwnnw, y plannodd Duw ardd yn Eden, a gosod Adda ynddi.

Oherwydd i Dduw greu dyn ar ei ddelw a'i lun 'roedd perthynas arbennig rhyngddynt. Creodd Duw ddyn i gael cymdeithas ag Ef. Ar y dechrau roedd dyn yn ddiniwed, gyda'r gallu i ymateb i'r daioni o'i gwmpas, a hefyd i Dduw. Fe'i crëwyd hefyd gydag ewyllys rhydd, sef y gallu i ddewis rhwng y da a'r drwg. Ni all yr un creadur arall wneud hynny.

Mae penodau 2 a 3 yn ateb y cwestiwn sut y daeth pechod i'r byd. Mae'r ateb yn eglur: daeth trwy'r dewis sydd gan ddyn. Un rheol oedd yng Ngardd Eden: gellid bwyta o ffrwyth pob pren ond un, pren gwybodaeth dda a drwg. Temtir Efa i amau gwirionedd geiriau Duw. Dyna yw pechod; gwrthryfel yn erbyn daioni Duw, y gred mai ni sy'n iawn, ac mai ni'n unig sydd yn bwysig. Try'r amheuaeth yn weithred wrth i'r ddau fwyta o'r ffrwyth. Ceisiant roi'r bai ar y llall, ond mae'r naill a'r llall yn gyfrifol am ei bechod ei hun. Nid oedd Duw, fodd bynnag, am droi cefn ar ddyn. Er ei anfon allan o Ardd Eden, ac er iddo golli ei 'goron wiw', caiff dyn ail gyfle.

### Beth yw ystyr 'delw' a 'llun' (1:26)?

Nid delw corfforol. Mae'r Beibl yn annelwig ynghylch sut un yw Duw.

Dywedwn fod plentyn yr un ffunud â'i dad neu ei fam; golyga hynny'n aml ei fod yn debyg o ran pryd a gwedd, ond oherwydd mai Ysbryd yw Duw, nid dyna ystyr delw a llun yma.

Delw Duw yw Ei ysbryd, yr urddas a'r cysegredigrwydd cynhenid ynom. Rydym 'yn debyg i Dduw' yn y modd y gallwn ymateb i Dduw. Rydym yn 'debyg i Dduw' yn y modd y gallwn wneud dewisiadau; gallwn wneud yr hyn sydd 'yn iawn.'

### Nid yw Genesis yn sôn am Ardd Eden

Yr hyn â ddywedir yw 'plannodd Duw ardd yn Eden.' Ble oedd Eden? Y farn gyffredinol yw mai yn Ne Mesopotamia oedd hi. Fe'i disgrifir fel ardal gydag afon i ddyfrhau'r ardd, ac yn ymrannu'n bedair; Pishon, Gihon, Tigris ac Ewffrates. Gwyddom am y ddwy olaf; fe'i ceir yng ngwlad Irac heddiw.

Yr hyn sy'n bwysig yw nid ble'r oedd yr ardd, ond beth oedd yr ardd. Lle i Dduw a dyn i gydweithio gyda'i gilydd oedd yr ardd yn Genesis; man hyfryd, tangnefeddus a hapus, neu 'paradwys', sy'n tarddu o air Persiaidd am 'ardd.'



Pam fod Adda ac Efa'n drist? Roedd rhaid iddyn nhw adael gardd berffaith  
Duw oherwydd eu bod wedi dewis peidio gwranddo ar Dduw.

O Dduw, rydym yn drist i glywed sut y bu Adda ac Efa pechu.  
Rydym ni'n pechu hefyd. Plŷs maddau i ni. Amen.

# Gwers 2 – Popeth yn mynd o'i le



## Gadael Gardd Duw | Beibl Newydd y Plant tud. 21

(Genesis 3)

### Gwers 2

Popeth yn mynd o'i le

#### **BEIBL GWEITHGAREDD Y PLANT DAN 7 oed.**

Popeth yn mynd o'i le tud 14

#### **BEIBL GWEITHGAREDD Y PLANT DROS 7oed.**

Y gelyn yn yr ardd tud 14

#### **BEIBL LLIW STORI DUW**

Da a drwg tud 13

Adda ac Efa'n cael eu danfon i ffwrdd tud 14

#### **BEIBL BACH STORI DUW**

Y celwydd ofnadwy tud 28

#### **BEIBL NEWYDD Y STORIWR**

Diwrnod Trist tud 10

#### **BEIBL LLIW Y PLANT**

Gardd Eden tudalen 18

#### **BEIBL NEWYDD Y PLANT**

Gadael gardd Duw tud 21

#### **BEIBL BACH I BLANT**

Y Diwrnod Trist cyntaf tud 20

#### **Y BEIBL I BLANT mewn 365 o storïau.**

Difetha'r cread(3) tud 13

Paradwys goll(4) tud 14

#### **BEIBL LLIW Y TEULU**

Gardd Eden tud 18

### Amser Crefft

'Adda ac Efa'n pechu' t.12 neu 13 o'r llyfr Crefft.

Byddai'n dda cael eich amser Crefft i ddechrau'r sesiwn heddiw, fel bod y plant yn medru defnyddio eu crefftwaith yn ystod yr Amser Stori.

### Amser Stori

Darllenwch yr hanes o Beibl Newydd y Plant (t. 21). Wedyn, gofynnwch iddynt beth oedd Duw wedi rhoi i Adda ac Efa i'w fwyta a pha reolau gawson nhw gan Dduw. Pam oedd rhaid i Adda ac Efa adael yr ardd berffaith?

### Amser Chwarae

Bydd angen siapiau ffrwythau, neu ffrwythau go iawn. Cuddiwch y siapiau/ffrwythau o flaen llaw.

Os na wnaethoch y Crefft o dudalen 13, eglurwch wrth y plant sut y bu i Adda ac Efa geisio cuddio oddi wrth Dduw ar ôl iddynt fwyta'r ffrwyth o'r goeden. Pam oeddent yn ceisio cuddio oddi wrth Dduw? Sut mae'r plant yn teimlo ar ôl gwneud rhywbeth drwg? Oedd Adda ac Efa'n medru cuddio oddi wrth Dduw?

Eglurwch eich bod wedi cuddio siapiau/ffrwyth o amgylch yr ystafell a'ch bod am i'r plant ddod o hyd iddynt. Efallai yr hoffech wahodd un plentyn ar y tro i chwilio neu caiff pawb chwilio gyda'i gilydd.

### Cân

Beth am ganu 'Pwy wnaeth y sêr uwchben' (143 Caneuon Ffydd), ac ychwanegwch gymaint o benillion gyda symudiadau digri ag y medrwch? E.e. 'Pwy wnaeth y go -ri- la' gan gosi o dan y ceseiliau, neu 'Pwy wnaeth y cro - co -deil?' gan ddefnyddio breichiau fel ceg anferth.

### Gweddi

Bydd angen dau blât papur a phin ffelt du.

Tynnwch lun wyneb hapus ar y plât cyntaf, a gofynnwch i'r plant beth sy'n eu gwneud yn hapus. Atgoffwch y plant bod Adda ac Efa'n hapus iawn yn byw yng ngardd perffaith Dduw. Adroddwch weddi yn diolch i Dduw am yr holl bethau sy'n ein gwneud yn hapus, gan annog y plant i gau eu llygaid ac i ddweud 'Amen' ar ddiwedd y weddi.

Ar y plât arall, tynnwch lun wyneb trist, a gofyn i'r plant beth sy'n eu gwneud yn drist. Pam oedd Adda ac Efa'n drist yn y stori heddiw?

Eglurwch fod Duw'n drist iawn, iawn hefyd. Roedd Duw wedi'i siomi bod Adda ac Efa wedi dewis peidio â bod yn ufudd iddo wrth fwyta'r ffrwyth o'r goeden arbennig. Mae Duw yn drist pan fyddwn ni'n dewis bod yn anufudd hefyd. Trafodwch y pethau mae'r plant yn ei wneud sy'n tristau Duw – bod yn gas i bobl, peidio â gwrando ar mam a dad, dweud pethau cas neu hyll ayyb. Esboniwch fod Duw am i ni ddweud 'sori' wrtho os byddwn yn gwneud, neu'n dweud pethau drwg, ac arweiniwch y plant mewn gweddi o gyffes syml, gan eu hannog i ddweud 'Amen' ar y diwedd.

## Adnoddau Ychwanegol

### Crefft

Llyfr Crefftau Stori Duw i blant dan 5 oed t. 12 neu 13

### Cyfres DVD Stori Duw

Stori 2: Adda ac Efa

### Tafleuni gwefan amserbeibl.org

Cyfres A – Y Creu

### Cwis a Chwilair

Llyfr Cwis Cynta i Ateb, tud 262

### Cyfres PowerPoints Beibl Bach i Blant

Cyflwyniad 2: Y Diwrnod Trist Cyntaf

### Llyfrau Stori

Y Creu a'r Dilyw

